


URDD GOBAITH CYMRU

www.urdd.org



# ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2003/2004



Rees Astley Ltd

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol



Mae Rees Astley Ltd yn falch o gefnogi Adolygiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru

29 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JN
Ffôn: 01970 624261 Ffacs: 01970 611643
e-bost: aber@reesastley.co.uk


Mostyn House, Stryd y Farchnad, Y Drenewydd, Powys SY16 2PQ
Ffôn: 01686 626019 Ffacs: 01686 628457
e-bost: newtown@reesastley.co.uk

5 Lower Brook Street, Croesoswallt, Sir Amwythig SY11 2HG
Ffôn: 01691 670900 Ffacs: 01691 670490
e-bost: oswestry@reesastley.co.uk

B I B A

MEMBER
General Insurance

## Adroddiad y Prif Weithredwr



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adolygiad hwn sy'n amlinellu blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes yr Urdd, ac sy'n disgrifio'r cyfleoedd a gafodd dros 51,000 o blant a phobl ifanc Cymru. Disgrifia ystod eang o weithgareddau – o'r Eisteddfod wych a gafwyd ym Môn i deithiau dyngarol i wledydd tramor. Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu, mae'n gyfle hefyd i ni edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn flwyddyn o ddechreuadau newydd i'r Urdd. Byddwn yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau newydd yng Ngwersyll Glan-llyn a Gwersyll Llangrannog. Byddwn yn sefydlu gwersyll yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a chynnal Eisteddfod hollol arloesol yno. Byddwn yn dechrau cyfnod o weithredu amcanion Cynllun Corfforaethol newydd ac yn ymateb i argymhellion a wnaed mewn arolwg annibynnol o'n gwaith yn y maes drwy Gymru.

Comisiynwyd yr arolwg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ymhlith y casgliadau cadarnhawyd fod

- yr Urdd yn darparu ystod o gyfleon unigryw i blant a phobl ifanc sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r iaith Gymraeg o fewn cyd-destunau cyfoes a deniadol
- mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn sgil gweithgarwch yr Urdd mewn amrywiaeth o gyd-destunau y tu allan i furiau ysgol
- yr Urdd yn cynnig hawl cenedlaethol i ddarpariaeth berthnasol a defnyddiol ble bynnag mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw a beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol
- yr Urdd yn cynnig gwerth am arian.

Gwnaed nifer o argymhellion hefyd ynglŷn â sut y gellir cryfhau ein gwaith a nodwyd bod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a werthfawrogir gymaint gan aelodau'r Urdd. Ein camp dros y cyfnod nesaf fydd gwireddu'r potensial sy'n cael ei amlinellu yn yr arolwg. Byddwn yn edrych ymlaen at wneud hyn mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyllidwyr eraill.

Wrth baratoi'r Cynllun Corfforaethol am y cyfnod 2005-2008, ac wrth ymgynghori ag aelodau, staff a gwirfoddolwyr, nodwyd y canlynol fel blaenoriaethau i waith yr Urdd, a'r her yn awr fydd eu gweithredu:


- cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan roi sylw arbennig i'r oed 12-15
- cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol, gan gynyddu gweithgareddau amser gwyliau
- cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc, a datblygu arweinwyr ifanc.

Mae'r Urdd yn ymwybodol iawn fod ganddo rôl i gynnig gweithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc, sydd yn ymateb i'w hanghenion, ac sydd yn eu hargyhoeddi fod byw bywyd Cymraeg yng Nghymru yn brofiad cyffrous a heriol. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff, a'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gwneud hyn yn bosibl eleni, a diolch ymlaen llaw iddynt am fod yn barod i ymgymryd â phrosiectau a chynlluniau a blaenoriaethau newydd dros y flwyddyn sydd i ddod.

Fy ngobaith yw fod pawb sy'n ymwneud â'r Urdd – yn blant, yn bobl ifanc ac oedolion yn mwynhau'r profiad a gânt – ac yn cael eu cyfoethogi ganddo. Mae'r adolygiad hwn yn profi fod hynny'n digwydd.

**Efa Gruffudd Jones**
Prif Weithredwr

## Adroddiad y Cadeirydd



Annwyl Ffrindiau,

Mae'n bleser gennyf ategu sylwadau'r Prif Weithredwr ar weithgaredd y mudiad yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto eleni cafwyd blwyddyn brysur a llwyddiannus, ond blwyddyn hefyd o newidiadau a datblygiadau.

Cynhaliwyd arolwg o waith y maes yn yr Hydref a derbyniwyd adroddiad canmoliaethus o'r holl weithgaredd. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r arolwg yma. Cafwyd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn nôl ym mis Mawrth yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd lle gwelwyd rhai o dalentau mwyaf disglair y mudiad yn rhannu llwyfan gyda Daniel Evans, Catrin Finch a Bryn Terfel, a chôr gwych yr Aelwydydd yn canu o dan arweiniad Owain Arwel Hughes. Cyngerdd arbennig iawn i gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol y mudiad yn 2005 a chyfle i sicrhau dyfodol ariannol Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru am rai blynyddoedd.

'Mlaen â ni wedyn i Ynys Môn a maes godidog 'Mona' lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn sicr fe brofodd trigolion yr ynys fod hawl ganddynt ddweud eu bod yn byw yng 'ngwlad y medra'! Roedd hi'n arbennig o braf gweld aelwyd newydd yr ynys yn cymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau ac rwy'n hyderus y cawn eu gweld yn Eisteddfod 2005 yng Nghanolfan y Mileniwm hefyd.

Erbyn hyn mae staff y de wedi symud mewn i'w swyddfeydd newydd yng Nghanolfan y Mileniwm ac mae'r Gwersyll yn barod i groesawu nid yn unig eisteddfodwyr 2005 ond aelodau Cymru gyfan. Croesawyd y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon, Alun Pugh AC i agor y datblygiadau newydd yng ngwersylloedd Glan llyn a Llangrannog ar ddechrau'r haf, datblygiadau llety a gweithgaredd a fydd yn sicrhau gwell cyfleusterau i wersyllwyr y dyfodol.

Mae'r adran chwaraeon yn datblygu o nerth i nerth gyda mwy a mwy o weithgaredd amrywiol yn cael ei gynnig, a mwy nag erioed yn mentro i gymryd rhan. Teithiodd nifer o aelodau ar ymgyrchoedd dyngarol yn ystod y flwyddyn i Calcutta, Lesotho a Gwlad Pwyl ac roedd hi'n arbennig o braf medru croesawu rhai o ferched ifanc Calcutta yn ôl i Gymru ym mis Mai.

Penodwyd Efa Gruffudd Jones fel Prif Weithredwr newydd i'r mudiad nôl ym mis Tachwedd a dechreuodd ar ei gwaith yn y gwanwyn. Nid yw Efa yn wyneb newydd i'r mudiad gan iddi fod yn Gyfarwyddwr Datblygu llwyddiannus i'r Urdd cyn hynny ac rwy'n hyderus y caiff yr un llwyddiant yn y swydd allweddol yma. Pob dymuniad da iddi a llongyfarchiadau hefyd iddi hi a'i gŵr ar enedigaeth Dafydd Siôn ym mis Awst. Yn sgil absenoldeb mamolaeth Efa derbyniodd y Dirprwy Brif Weithredwr y cyfrifoldeb o fod yn Brif Weithredwr Gweithredol a dymunwn yn dda i Mai Parry Roberts yn y dasg honno.

Cewch flas ar fwrlwm yr Urdd yn yr adolygiad hwn. Nid ar chwarae bach y mae cynnig y fath ystod o weithgaredd i'n haelodau, ac yn sicr ni fyddai'n bosibl oni bai am ymroddiad arbennig staff gweithgar y mudiad a'r miloedd o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddygn o wythnos i wythnos.

Diolch i chi gyd a daliwch ati.

**Rhiannon Lewis**
Cadeirydd

ar ran Swyddogion Urdd Gobaith Cymru

URDD GOBAITH CYMRU
www.urdd.org

# RHAGAIR

## NOD URDD GOBAITH CYMRU

**Bwriad Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru, i Gyd-ddyn a Christ.**


Rhif elusen: 524481
Rhif cwmni: 263310

Swyddfa'r Urdd
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1EY

Ffôn: 01970 613100
E bost: urdd@urdd.org
Gwefan: www.urdd.org

URDD GOBAITH CYMRU
www.urdd.org



## Gair gan y Llywydd, Andrea Parry

"Mae mudiad yr Urdd wedi chwarae rhan neilltuol bwysig yn fy mywyd ers cyn cof ac ni fuaswn yn athrawes heddiw heb yr hyder a gefais trwy weithgareddau'r Urdd. Mae ieuenctid Cymru yn freintiedig iawn o gael y cyfle i berthyn i fudiad mor bellgyrhaeddol ac mae'r diolch wrth gwrs i'r staff ac i gynifer o hyfforddwyr ac arweinyddion sy'n rhoi o'u hamser a'u arbenigedd i sicrhau bod y to ifanc yn cael eu meithrin gyda'r un profiadau. Bellach, a minnau'n dechrau ar fy mlwyddyn olaf swyddogol fel aelod o'r Urdd, gwn rywsut na fydd y ddolen yn torri a bydd yr Urdd yn parhau i chwarae rhan anatod yn fy mywyd. Mae'r profiadau, y cyfleoedd, y gwerthoedd ac wrth gwrs y ffrindiau a wnaethpwyd trwy fod yn rhan o'r mudiad yn parhau hyd byth."

**Andrea Parry**
Llywydd Urdd Gobaith Cymru 2004

## STRWYTHR STAFF YR URDD

**Prif Weithredwr**
Efa Gruffudd Jones

**Gwersyll Llangrannog**
Cyfarwyddwr
Steffan Jenkins

**Gwersyll Glan-llyn**
Cyfarwyddwr
Aled Siôn

**Gwersyll Caerdydd**
Cyfarwyddwr
Alun Owens

**Cyfarwyddwyr Taleithiau**
Dafydd Carrington / Dyfrig Morgan

**Eisteddfod a'r Celfyddydau**
Cyfarwyddwr
Siân Eirian

**Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél a Dirprwy Brif Weithredwr**
Mai Parry Roberts

**Cyfarwyddwr Datblygu**
Eurfyl Lewis

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chylchgronau**
Siân Eleri Davies

## Ystadegau diddorol am Urdd Gobaith Cymru

- Prif fudiad ieuenctid Cymru
- Aelodaeth o 51,191
- 30% o holl siaradwyr Cymraeg 8 – 18 oed yng Nghymru
- 25% o holl blant 10 oed yng Nghymru
- Darparwr chwaraeon blaenllaw Cymru – 250,000 o sesiynau chwaraeon y flwyddyn
- 96,000 o gylchgronau Cymraeg yn cael eu gwerthu'n flynyddol
- 180 o staff a throsiant ariannol o £5 miliwn
- 10,000 o wirfoddolwyr mewn 1,300 o ganghennau
- Dros chwarter miliwn o ymweliadau â'n gwefan

## Swyddogion Urdd Gobaith Cymru 2004

**Llywydd:** ........ Andrea Parry
**Is-Lywyddion:** ........ Carol Davies
Gavin Ashcroft
**Llywyddion Anrhydeddus:** ........ Prys Edwards
Wynne Melville Jones
Bob Roberts
**Cadeirydd:** ........ Rhiannon Lewis
**Is-Gadeirydd:** ........ Tudur Dylan Jones
**Trysorydd:** ........ Geraint Rees
**Ysgrifennydd:** ........ Eirith Evans
**Cadeiryddion Taleithiol:** ........ Gwyn Morris (Gogledd)
Kevin Davies (Canolbarth)
Sara Gwilym (De)

# GWERSYLLOEDD











## Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

Blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes y Gwersyll gyda dros 12,500 o wersyllwyr yn lletya yng Nglan-llyn, sef dros 31,000 gwersyllwr/noson.

Cafwyd agoriad swyddogol i'r Ganolfan Groeso newydd, adeilad sy'n cynnwys theatr ddarlithio, ystafelloedd cysgu a swyddfeydd newydd i'r Gwersyll, ynghyd â swyddfeydd i'r adrannau Eisteddfod, Cyllid a Rhanbarth Meirionnydd ac mae pawb bellach wedi hen ymgartrefu yma. Mae'r datblygiad a'r adnoddau newydd wedi cael croeso mawr gan gwsmeriaid a staff.

Cafwyd newyddion da am ddatblygiadau'r dyfodol sef Cwrs Rhaffau Uchel yn y goedwig a gwelliannau sylweddol i'r lanfa. Bydd y cyfan yn cael ei gwblhau yn ystod 2005.

Cwblhawyd y tir lunio o amgylch maes parcio a chae chwarae y Gwersyll.

Adeiladwyd cwt adarydda ger y llyn a chrëwyd llwybr arbennig iddo sy'n addas ar gyfer y llai abl.

Cafwyd cynnydd eto yn niferoedd Gwersyll Haf.

Dechreuwyd ar y gwaith o sicrhau llwybr troed a beiciau rhwng Glan-llyn a phentref Llanuwchllyn er mwyn sicrhau bod y gwersyllwyr yn medru cerdded a beicio yn ddiogel ac yn ddidrafferth.

Mae'r Gwersyll bellach yn cyflogi dros 40 o staff.

## Gwersyll yr Urdd Llangrannog

O'r diwedd ar ôl hir ddisgwyl, agorwyd yr adeiladau newydd a gwelir y Gwersyll ar ei newydd wedd.

Mae'r Gwersyll wedi'i weddnewid gydag adeiladau'r fferm wedi'u trawsnewid i Ganolfan Treftadaeth ac yn creu argraff wych wrth i ymwelwyr gyrraedd y Ganolfan.

Crëwyd maes parcio newydd sy'n golygu bod y Gwersyll yn ddi-gerbyd ac yn llawer mwy diogel i'r plant gan greu ymdeimlad o ofod a llonyddwch.

Mae'r llety newydd gyda 34 ystafell 'en-suite' gyda gwres canolog tan-llawr wedi profi'n llwyddiant mawr. Golyga hyn y gallwn ddefnyddio'n hadnoddau llety yn llawer mwy effeithiol.

Mae'r Ganolfan Hamdden a'r Cae Pob Tywydd wedi ennill eu plwy hefyd. Mae'n braf cael adnodd o'r safon uchaf i'w gynnig nid yn unig i'r Gwersyllwyr ond hefyd i'r gymuned leol. Agorwyd y cyfleusterau chwaraeon gan Alun Pugh AC Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon ym mis Gorffennaf. Trefnwyd Ysgol Chwaraeon yn yr haf – y cyntaf o nifer – gyda 170 o blant yn bresennol. Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd gyda'r Cyngor Chwaraeon a'r Cynulliad i gael mwy o blant i gymryd rhan a diddori mewn chwaraeon ac ymuno yn y frwydr i wella safon iechyd plant a phobl ifanc Cymru.

Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth weithio ar y cynllun hwn a gwneud yr holl beth yn bosib.

Yng nghanol bwrlwm o baratoi ac agor yr adeiladau newydd, cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall gyda'r flwyddyn orau erioed o ran ymwelwyr sef 18660 o wersyllwyr (49890 am noson).

Cyflwynwyd nifer o weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn – ceirt cyflym, lacrosse, gwella'r cwrs cyfeiriannu ac wrth gwrs y ganolfan hamdden a'r holl gyfleusterau chwaraeon yn sgil hyn.

Ymfalchïwn yn y ffaith bod y Gwersyll, erbyn hyn, yn cynnig gwaith i bron 90 o bobl, a gyda buddsoddiad diweddar o yn agos i £5.5miliwn, mae'n profi bod gwreiddiau'r Urdd yn ddwfn yng nghefn gwlad Cymru.

Unwaith yn rhagor, diolch i bawb sy'n cefnogi'r gwersyll gydol y flwyddyn.

## Gwersyll yr Urdd Caerdydd Canolfan Mileniwm Cymru

Bydd yr Urdd yn agor gwersyll newydd am y tro cyntaf ers dros hanner can mlynedd ar Dachwedd 26ain, 2004. Mae'r Gwersyll yn rhan o adeilad hynod gyffrous Canolfan Mileniwm Cymru a bydd yn cynnig profiadau celfyddydol unigryw a chyfle i aelodau'r Urdd ymweld â holl atyniadau prifddinas Cymru.

Mae lle i 153 o bobl aros dros nos yn y Ganolfan mewn ystafelloedd 'en-suite', ac mae yno hefyd neuadd/theatr, lolfeydd, ffreutur ac ystafelloedd dosbarth. Crëwyd y Gwersyll gyda diogelwch plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth.

Bydd cyrsiau arbenigol celfyddydol yn y Gwersyll, ond byddwn hefyd yn trefnu ymweliadau i bob math o lefydd yng Nghaerdydd a'r ardal. Bydd cyfleoedd i ymweld â Stadiwm y Mileniwm, y Cynulliad, Techniquest, Sain Ffagan, Yr Amgueddfa Genedlaethol, y Pwll Mawr, Castell Coch, Castell Caerdydd a llawer mwy. Gallwch hefyd weld sioe, gêm bêl-droed, criced, rygbi neu hoci iâ ac mae prisiau arbennig i'r rhai sy'n aros yn y Gwersyll i weld y ffilmiau diweddaraf, bowlio 10 a defnyddio holl gyfleusterau Pentref Hamdden Atlantic Wharf.

Gallwn drefnu cyrsiau iaith neu ddaearyddiaeth yn ogystal â chyrsiau trawsgwriciwlaidd, gyda mwyafrif atyniadau'r ardal yn paratoi deunydd dysgu sydd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn wahanol i'r Gwersylloedd eraill, sydd yn rhoi profiadau gwledig ac awyr agored gwych i ieuenctid Cymru, bydd Gwersyll Caerdydd yn cynnig profiadau dinesig a chelfyddydol, gan ychwanegu at y dewis anhygoel sydd eisoes ar gael gan yr Urdd.


Cysylltwch â

**Gwersyll yr Urdd Glan-llyn**
**Aled Siôn,** Cyfarwyddwr
Ffôn: 01678 541 000
E bost: glanllyn@urdd.org

**Gwersyll yr Urdd Llangrannog**
**Steffan Jenkins,** Cyfarwyddwr
Ffôn: 01239 654473
E bost: llangrannog@urdd.org

**Gwersyll yr Urdd Caerdydd**
**Alun Owens,** Cyfarwyddwr
Ffôn: 029 20635678
E bost: alun@urdd.org

Gwefan: www.urdd.org

URDD GOBAITH CYMRU
www.urdd.org

# Y MAES

## Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

**Bu'n flwyddyn hynod o lwyddiannus i Adran y Maes gyda pharhad a datblygiad yn ein gweithgareddau. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr adran ei harolygu yn annibynnol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Isod ceir blas yn unig o'r flwyddyn a aeth heibio.**

- Bu twf o dros 400 yn ein haelodaeth i 51,191.
- Bu 60 o aelodau Urddaholics ar gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
- Cafodd nifer o'n haelodau hŷn gyfleoedd i weithio ar brosiectau yn yr India, Affrica, Tsieina a Gwlad Pwyl.
- Trefnwyd ymweliadau i Gymru i ieuenctid o Wlad Pwyl a'r India a cheir mwy o wybodaeth o fewn Adroddiad Cyd-ddyn a Christ.
- Roedd côr unedig ein Haelwydydd yn sylfaen gref i Gyngerdd Bryn Terfel a'r Urdd yn Neuadd Dewi Sant.
- Gwelwyd datblygiad ac ehangu mewn gwaith maes chwaraeon. Yn ogystal â'r rhaglen lawn a ddarperir yn Rhanbarthol, mae gwaith y Swyddogion Chwaraeon wedi ymestyn ein darpariaeth yn sylweddol fel y gwelir yn yr Adroddiad Chwaraeon.
- Manteisiodd dros ugain o Adrannau Sir Benfro ar gynllun tair blynedd i gefnogi a hybu gweithgareddau'r Urdd gyda phobl ifanc difreintiedig. Ariannwyd y cynllun gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd.
- Fel yng Nghaerdydd y flwyddyn flaenorol, bu'r Eisteddfod ym Môn yn ysgogiad i ffurfio Aelwyd newydd, Aelwyd yr Ynys.
- Trwy nawdd Plant Mewn Angen cychwynnwyd ar gynllun arloesol i'r mudiad yng Ngwynedd a Môn gan weithio gyda grwpiau bach o bobl ifanc sydd mewn perygl o'u heithrio o'r ysgol. Mae'r gwaith dwys yma wedi sicrhau datblygiad i'r bobl ifanc yma a dyfarnwyd tystysgrifau cydnabyddedig iddynt ym meysydd Gwaith Amgylcheddol a Chwaraeon.
- Trefnwyd ymweliadau a chyfleoedd addysgiadol i dros 30,000 o blant a phobl ifanc.
- Trefnodd yr adran gyrsiau yn ein gwersylloedd i 13,000 o'n haelodau.
- Bu 870 o'n haelodau ar gyrsiau cyfleodd preswyl dramor.

Eleni eto gwelwyd y mudiad yn cydweithio gyda phartneriaid ar y prosiectau canlynol:

- Taith Bop S4C Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Miri Myrddin
- Parti Ponty
- Ffiesta Fflint
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru

## Yr Arolwg

Yn ystod mis Hydref a Thachwedd fe arolygwyd gwaith yr adran gan bump arolygwr o dan arweiniad Gari Lewis. Ym mis Mawrth cyflwynwyd a chymeradwywyd canlyniadau yr arolwg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dadansoddwyd ein darpariaeth fel un sylweddol a llwyddiannus sydd yn rhoi gwerth am arian ac yn gwneud cyfraniad allweddol i fywydau plant a phobl ifanc Cymru, ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn eu plith.

Cynigir nifer o argymhellion yn yr adroddiad ac mae nifer o'r rhain wedi eu hymgorffori yn ein Cynllun Corfforaethol 2005-2008.

Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad ar **www. bwrdd-yr-iaith.org.uk**




**Cysylltwch â**

**Dafydd Carrington**
Cyfarwyddwr Talaith
**Ffôn:** 01686 626521
**E bost:** dafydd@urdd.org

**Dyfrig Morgan**
Cyfarwyddwr Talaith
**Ffôn:** 02920 635680
**E bost:** dyfrig@urdd.org

Gwefan: www.urdd.org

# CHWARAEON



CHWARAEON

**Rygbi Uwchradd** - daeth 135 o dimoedd i gystadlu yn yr Wyl Rygbi Genedlaethol yn Llanelli.

**Rygbi Cynradd** - am y tro cyntaf daeth dau dîm o bob sir i gystadlu yn y rowndiau terfynol yn Llanelli.

**Gŵyl Pêl-rwyd Uwchradd Cenedlaethol** – daeth 121 o dimoedd i gystadlu yng Nghaerdydd.

Cynhaliwyd Gwyliau Chwaraeon arferol yr Urdd yn Aberystwyth.

Unwaith eto derbyniwyd y Galas Nofio Cenedlaethol yn y de a'r gogledd fel rhan o galendr Cymdeithas Nofio Cymru.

600 o Urddaholics a gwirfoddolwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi chwaraeon.

Wedi derbyn grant o £5,000 ar gyfer cynllun golff yn ardal Llanelli.

34 o wirfoddolwyr wedi mynychu cwrs hyfforddi chwaraeon preswyl yng Ngwersyll Llangrannog.

170 wedi mynychu ysgol chwaraeon breswyl dros yr haf yng Ngwersyll Llangrannog. Dyma'r cwrs cyntaf o'i fath i'r adran ei drefnu ac roedd yn llwyddiannus iawn.

Mae'r Urdd wedi ei dderbyn yn 'Ganolfan Achrededig Safonol' i redeg cyrsiau Arweinwyr Chwaraeon yn y Gymuned.









# CYD-DDYN A CHRIST

## Croeso Calcutta

Croesawyd wyth o bobl ifanc o Calcutta i Gymru yn ystod mis Mai 2004. Buont yn ymweld â nifer o ysgolion ac Adrannau ar hyd a lled Cymru, ynghyd â chymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ym Môn. Cymrodd ymhell dros 3000 o blant a phobl ifanc ran mewn gweithdai yn rhannu diwylliant Cymru a Chalcutta drwy ddawns, ac hefyd yn trafod materion cyfoes megis HIV/Aids.



## Neges Heddwch ac Ewyllys Da

Lluniwyd y neges eleni gan aelodau o Aelwyd yr Ynys, Ynys Môn. Cyflwynwyd y neges o lwyfan Eisteddfod yr Urdd. Mae'r neges yn un amserol yn annog pobl i gefnogi Masnach Deg.

## Lle Chwech Gwell

Dyma gynllun ar y cyd rhwng yr Urdd a Dolen Cymru Lesotho. Bu i saith o Urddaholics Ysgol y Preseli Crymych ymweld â phentref bychan Ramachini yn Lesotho yn ystod mis Gorffennaf. Nod y daith oedd adeiladu toiledau cyhoeddus yn y pentref, cyfleusterau nad oedd ar gael i'r pentrefwyr, a chyfleusterau fyddai'n gwella ansawdd bywyd a iechyd pawb. Cafwyd croeso mawr yn Ramachini a chyfle i rannu diwylliant Cymru a Lesotho.





## Prosiect Pwyl

Dyma drydydd ymweliad Urddaholics â Gwlad Pwyl i weithio mewn cartrefi plant. Llwyddwyd i wneud gwaith ardderchog mewn dau gartref plant gan adnewyddu ystafelloedd cysgu a chreu ystafell ffitrwydd.



## Gwasanaeth Sul yr Urdd

Mae Gwasanaeth Sul yr Urdd 2003, a ysgrifennwyd gan Y Parchedig Jeff Williams, Cymorth Cristnogol, ar gael ar wefan yr Urdd www.urdd.org



# ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

URDD GOBAITH CYMRU
www.urdd.org









## Eisteddfod Tawe Nedd ac Afan 2003

Yng nghorff yr adroddiad hwn fe gyhoeddir canlyniad ariannol yr Eisteddfod. Diolchiadau diffuant i'r gwirfoddolwyr hynny weithiodd yn ddiflino er lles a llwyddiant yr Eisteddfod.

## Eisteddfod Ynys Môn 2004

Ar ddiwedd Prifwyl Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru gallwn ymfalchïo i ni gael Gŵyl ardderchog oedd yn arloesol ar sawl ystyr. Mwynhawyd yr arlwy mewn sawl cyfrwng - rhaglenni radio a theledu byw, y we ynghyd â phapurau newydd ac fe ddaeth dros 107,000 i faes primin Môn.

Gwedd newidiwyd y profiad Eisteddfodol gydag arbrawf newydd eleni ar y cyd gyda chwmni teledu Opus ac S4C - wal fideo enfawr oedd yn cynnwys 80 sgrîn fel cefnlen yn y Pafiliwn. Roedd y wal yn dangos delweddau i gyd-fynd â themâu gwahanol gystad-laethau gan gyfoethogi y profiad gweledol i'r gynulleidfa yn y Pafiliwn ac i'r gwylwyr gartref.

Arbrawf llwyddiannus arall oedd y tipis fu'n gartref i sesiynau adrodd stori, gweithdai ysgrifennu a sgriptio, dawns, sesiynau acwstig a dadleuon. Bu'n ganolbwynt i weithgareddau Urddaholics gydol yr wythnos. Neilltuwyd ardal gyfan ar gyfer llu o weithgareddau pobl ifanc oedd yn cynnwys demos trin gwallt, ramp sglefrfyrddio dan nawdd S4C, gweithgareddau chwaraeon o bob math, wal ddringo a phabell roc ar y cyd â'r BBC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd y mentrau newydd yma yn ffordd ymlaen i gynnig ystod eang o brofiadau modern, diwylliannol, cyfoes a deniadol i gystadleuwyr ac ymwelwyr â'r Eisteddfod.

Roedd yn faes godidog ym Môn gyda golygfeydd o ogoniannau mynyddoedd Eryri. Manteisiwyd ar y ffaith fod y Gymdeithas Amaethyddol wedi addasu eu hadeilad aml bwrpas ac yno y lleolwyd y Pafiliwn. Adeiladwyd strwythurau arbennig ar y maes er mwyn cynnal yr holl ragbrofion, bu hyn yn gyfrwng i sicrhau bwrlwm o gerddoriaeth, dawns a llefaru ymhob cornel o'r maes drwy gydol yr wythnos.

Cyrhaeddodd gwe ddarlledu'r Eisteddfod wledydd ledled y byd. Diolch am gefnogaeth ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â chydweithrediad hynaws staff yr Adran Addysg Diwylliant a Hamdden gydol y daith.

Roedd dau o sêr cerddorol yr ynys, Gwyn Hughes Jones ac Iwan Llywelyn Jones yn cynnal dosbarthiadau meistr ar y maes. Roedd hwn yn gyfle heb ei ail i blant a ieuenctid Cymru fanteisio ar athrylith dau sydd wedi cyrraedd y brig ym myd cerddoriaeth, a chael profiad o weithio gyda'r goreuon.

Sicrhawyd £173,000 o Nawdd i'r Eisteddfod.

Gallwn gadarnhau fod y budd economaidd pan fod Eisteddfod yn ymweld ag ardal dros chwe miliwn a hanner.

Gwaith tîm sy'n gwneud Eisteddfod yr Urdd yn bosib, a chydwei-thrediad llu o wirfoddolwyr ac amrywiol asiantaethau er mwyn creu cyfanwaith a chyflawni gwyrthiau yn ein Gŵyl flynyddol.

## Canolfan Mileniwm Cymru 2005

Yn hytrach na'r wythnos gyhoeddi draddodiadol cafwyd cyngerdd bythgofiadwy yng nghwmni Bryn Terfel ac Aelwydydd yr Urdd yn Neuadd Dewi Sant. Croesawyd rhai o enillwyr y gorffennol yn ôl i rannu yn y dathliad, dyma'r rhai oedd yn cynrychioli'r holl gystadleuwyr sydd wedi cyfoethogi'r Eisteddfod dros y blynyddoedd. Roedd hi'n wych hefyd gweld corau ein Haelwydydd yn dod at ei gilydd mewn dathliad o'u talent. Roedd gwaddol y noson yn mynd i sicrhau dyfodol Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Urdd Gobaith Cymru. Mae pawb yn gwybod fod y safon sydd wedi ei gyrraedd ar lwyfan yr Eisteddfod gydol y blynyddoedd gyfuwch ag unrhyw genedl yn y byd. Yn Eisteddfod yr Urdd 2005, fe fydd y lleoliad a'r llwyfan ei hun yn cyrraedd yr un safon. Yng Nghanolfan y Mileniwm, mae gennym ni yng Nghymru bellach adeilad sy'n gallu cystadlu gyda goreuon y byd. Dyma mae ein hieuenctid ni yn ei haeddu, a dyma maen nhw wedi ei gael. Ond fel mae'r Urdd yn ei chyfrif hi'n fraint cael bod yn bartneriaid yng Nghanolfan y Mileniwm, mae'n fraint hefyd i'r Ganolfan gael croesawu hufen ifanc ein gwlad. Mae'n siŵr y bydd artistiaid proffesiynol o bob cwr o'r byd yn heidio i'r llwyfan yn eu tro, ond fydd yr un ohonyn nhw'n fwy pwysig na'r rhai fydd yn ymddangos ar y llwyfan yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2005.

Yn ystod y cyngerdd cyflwynwyd y Rhestr Testunau ar ei newydd wedd i Lywydd y Mudiad.

Cafwyd cyflwyniad croeso arbennig gan aelodau Aelwyd CF1 gyda Cherdd Groeso gan Ceri Wyn Jones, Bardd Plant Cymru ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn oedd yn arwydd o'r bwrlwm a'r brwdfrydedd sydd yn eich aros.

Cynhelir yr Eisteddfod yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a byddwn yn cau'r strydoedd sy'n amgylchynu'r ganolfan. Bydd y rhan helaethaf o'r rhagbrofion yn cael eu cynnal yn sinemâu yr UCI.

Eisteddfod yr Urdd 2005: 30 Mai -4 Mehefin 2005

## Ysgoloriaeth Bryn Terfel – Urdd Gobaith Cymru



Unwaith yn rhagor cafwyd noson arbennig iawn gyda chystadleuwyr Ysgoloriaeth Bryn Terfel, yn Theatr Gwynedd Bangor. Mae'r Ysgoloriaeth hon wedi hen ennill ei phlwyf a diolchwn i Bryn Terfel am ei gefnogaeth a'i ddiddordeb cyson yn yr Ysgoloriaeth.

## Y Daith Eisteddfodol

**2006** – Sir Ddinbych
**2007** – Sir Gaerfyrddin


**Cysylltwch â**

**Siân Eirian**
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Ffôn: 01970 613110
E bost: eisteddfod@urdd.org
Gwefan: www.urdd.org

# ADRAN GYFATHREBU A CHYLCHGRONAU

URDD GOBAITH CYMRU
www.urdd.org

## Cyfathrebu

Rydym yn hapus iawn i adrodd bod aelodaeth yr Urdd wedi codi eto eleni gyda 51,191 o aelodau o'i gymharu â 50,781 y llynedd. Gwelwyd cynnydd o 28% yn aelodaeth yr Urddaholics o'i gymharu â llynedd hefyd, gyda dros dair mil yn ymaelodi - mwy nag ers 1999-2000.

Rhoddwyd yr ail yn y gyfres o fathodynnau Mistar Urdd i aelodau cynradd ymaelododd cyn y Nadolig eleni, cylch allwedd i'r aelodau uwchradd a phecyn arbennig i'r Urddaholics.

Am y tro cyntaf yn hanes yr Urdd, roedd teuluoedd gyda thri neu ragor o blant yn cael cynnig ymaelodi am bris gostyngol. Bu'r cynllun yn llwyddiant mawr gyda bron 500 o deuluoedd a 1500 o blant yn manteisio arno. Byddwn yn datblygu'r cynllun hwn ymhellach eleni gan gynnig aelodaeth am £12 i deuluoedd gyda thri neu fwy o blant.

Diweddarwyd y Llyfryn Arweinyddion a'i ddosbarthu i'r adrannau, ac mae bellach i'w weld ar ein gwefan hefyd - www.urdd.org

Cafwyd wythnos lwyddiannus tu hwnt yn y Pafiliwn Croeso yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn gyda bandiau, sesiynau dawnsio llinell, sgiliau syrcas a pheintio wynebau ac ymddangosiadau Mistar Urdd yn cael croeso arbennig.

Roedd gan yr Urdd bresenoldeb ar faes Sioe Amaethyddol Frenhinol Llanelwedd eleni eto gyda'r wal ddringo ar safle Cyngor Chwaraeon, a'r garafán gyhoeddusrwydd ar safle S4C.

Bu stondin yr Urdd yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn fwrlwm drwy'r wythnos, gyda'r **Prif.f@r** - y bar di-alcohol - yn brysur tu hwnt.

Codwyd £500 ar gyfer taith yr Urddaholics i gartref plant amddifad yng Ngwlad Pwyl.

Bu'r safle gwe ar ei newydd wedd yn boblogaidd ryfeddol - dyma'r lle i syrffio am y newyddion diweddaraf o'r rhanbarthau a'r mudiad yn gyffredinol. Bellach mae'n denu dros 250,000 o ymweliadau yn flynyddol.

Rhyddhawyd nifer o ddatganiadau i'r wasg yn ystod y flwyddyn gan godi proffil yr Urdd yn y wasg genedlaethol, a darparwyd deunydd ar gyfer cynadleddau'r wasg yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn.







## Cylchgronau

Argraffwyd 10 rhifyn yr un o **Bore Da, Cip** a **iaw!** yn ystod y flwyddyn.

**Cip** - clecs, erthyglau, posteri, cystadlaethau, posau a mwy i siaradwyr Cymraeg dan 12 oed.

**Bore Da** - cylchgrawn syml a bywiog i ddysgwyr Cymraeg mewn ysgolion cynradd, addas ar gyfer cyfnod allweddol 1 a 2 o'r Cwricwlwm Ail Iaith.

**iaw!** - cylchgrawn cyfoes i ddysgwyr Cymraeg oedran uwchradd, sy'n cyd fynd â phecyn aml gyfryngol **iaw!** ac sy'n addas ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4 o'r Cwricwlwm Ail Iaith.

Paratoir taflenni athrawon i gyd fynd â **Bore Da** a **iaw!** i hybu eu defnydd yn y dosbarth. Mae taflenni **Bore Da** yn ddwyieithog.

Cynyddodd cylchrediad y cylchgronau cynradd yn ystod y flwyddyn. Gwelwyd gostyngiad bychan yng nghylchrediad **iaw!** - yn rhannol oherwydd cwtogi yng nghyllideb hyfforddi'r siroedd.

Cyhoeddwyd cyfres o erthyglau yn **iaw!** oedd yn cyd-fynd gyda'r fanyleb TGAU newydd, a chafodd yr erthyglau hyn dderbyniad gwresog gan yr athrawon ail iaith.

Cyngor Llyfrau Cymru sy'n ariannu **Cip**, ac rydym yn ddiolchgar iawn am gynnydd bychan yn y grant hwnnw eleni. Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ariannu'r cylchgronau ail iaith, ac mae'r Urdd yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth hwythau hefyd, ynghyd â'r holl gwmnïau eraill sy'n cefnogi'r cyhoeddiadau.

Rydym yn ddyledus iawn i'r timau Athrawon Bro led led Cymru ac i Ymgynghorwyr y Gymraeg mewn sawl sir am eu cefnogaeth barod bob amser.

Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ymweld ag ysgolion, ymweld â chyrsiau yn y gwersylloedd a chynnal sgwadiau sgwennu i hyrwyddo'r cylchgronau. Cafodd taflen farchnata newydd **Cip** a **Bore Da** dderbyniad cynnes yn yr ysgolion - mae'n hwyluso trefnu archebion y disgyblion ac yn cael croeso gan athrawon.

Trefnwyd **Cystadleuaeth Ysgrifennu Llythyr Cip** yn llwyddiannus unwaith eto, diolch i gefnogaeth hael y Post Brenhinol a Phlaned Plant.

Mae cynllun Bardd Plant Cymru yn mynd o nerth i nerth, ac yn ogystal â chynnal gweithdai electroneg yng Ngwersyll Llangrannog, cyfrannodd yr Urdd benwythnos ym Mhentre Ifan gyda Ceri Wyn Jones yn wobr mewn cystadleuaeth yn Sbondonics. Cafodd Ysgol Tyle'r Ynn benwythnos i'w gofio yno. Cyhoeddwyd enw Tudur Dylan Jones yn Fardd Plant Cymru 2004-2005 o lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn ym mis Mai.

Yr Adran Gylchgronau baratôdd fap Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ynys Môn eleni, gan gynorthwyo hefyd gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y wasg yn yr ŵyl.










Cysylltwch â

**Siân Eleri Davies**
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Ffôn: 01970 613118
E bost: sianeleri@urdd.org
Gwefan: www.urdd.org

# NAWDD

Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg

........£520,000

## Ffynonellau Ariannol

**Cynigwyd y grantiau canlynol:**

Cyngor Ieuenctid Cymru ....................................£60,000
ar gyfer 2003-2004
Cyngor Llyfrau Cymru .......................................£22,500
ar gyfer 2003-2004
Cyngor Chwaraeon Cymru: ...............................£26,696
ar gyfer cefnogi strategaeth chwaraeon
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: ............£10,113
ar gyfer cynllun hyfforddi gwirfoddolwyr
Cronfa Gymunedol ............................................ £27,190
Amcan 1 – ERDF ............................................... £10,773
Cyngor Celfyddydau Cymru (Eisteddfod 2003)...£48,000

**Grantiau Llangrannog a Glan-llyn**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg) ........................ £233,000
Cyngor Chwaraeon Cymru (Sportlot) ............. £638,556
Bwrdd Datblygu Cymru.................................. £326,717
Amcan 1 – ERDF ............................................... £74,722
Amcan 1 – EAGGF ........................................... £134,841
Bwrdd Croeso Cymru....................................... £317,268
Cyngor Sir Ceredigion – LRF .......................... £185,563
Cynulliad Cenedlaethol Cymru - LRF............. £200,000

## Noddwyr

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd £173,000 o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2004.

Noddodd **Post Brenhinol** gystadleuaeth ysgrifennu llythyr yn y cylchrawn **Cip** eleni.

**Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn at gostau Eisteddfod Môn** ...... £200,000
Yn ogystal â chefnogaeth sylweddol mewn da

**Ymddiriedolaethau**

BBC Plant mewn Angen ............................................................ £78,813
(dros 3 blynedd)
Sefydliad Lloyds TSB .................................................................. £6,000
Celfyddydau a Busnes................................................................. £3,500
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ............................................ £2,500
Mary Homfray ............................................................................. £2,000
Ymddiriedolaeth Rygbi'r Ddraig .................................................. £1,500
Sefydliad Golff ............................................................................... £532
Cyngor Dinas Casnewydd, Cronfa'r Degwm.................................. £500
Michael Sorbell, Cymdeithas Elusennol y Cymry........................... £500
Cymdeithas Credyd i Ddefnyddwyr Cymru .....................................£200
Cymdeithas Mr and Mrs JT Morgan ..............................................£200

**Prif Gymynroddion**

Sarah Winfred Williams, Y Rhondda ..............................................£1,500
Sir Goronwy Hopcyn Daniel, Llandaf..............................................£1,000
Mary Jones Holland, Llanfairpwll .................................................£1,000

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

## Awdurdodau Lleol

Powys ....................................... £7,147
Ceredigion ............................. £10,000
Caerfyrddin ........................... £16,500
Penfro....................................... £8,000
Merthyr.................................... £2,200
Penybont .................................. £1,000
Rhondda Cynon Taf ................. £5,000
Mynwy...................................... £5,000
Torfaen .................................... £5,500
Caerffili.................................. £10,000
Môn........................................ £16,420
Gwynedd ................................ £31,252
Conwy .................................... £16,074
Wrecsam .................................. £4,000
Fflint ........................................ £3,000
Amrywiol - Eisteddfodl............ £7,890

**Cyfanswm: ..........................£148,983**

Ceir cefnogaeth ymarferol gan Awdurdodau Lleol Dinbych, Powys, Penfro a Chaerdydd trwy ddarparu swyddfeydd i staff y Maes.

**Cysylltwch ag**

**Eurfyl Lewis:**
Cyfarwyddwr Datblygu

**Ffôn:** 01267 676652
**E bost:** eurfyl@urdd.org
Gwefan: www.urdd.org

# DATGANIAD YR ARCHWILYDD AR Y CRYNODEB ARIANNOL

## Datganiad yr Archwilwyr i Ymddiriedolwyr Urdd Gobaith Cymru

Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**

Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 11 Hydref 2004.

**Sail ein barn**
Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**
Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2004.

**Patterson, Jones & Evans**
Archwilwyr Cofrestredig,
Llanbedr Pont Steffan

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 11 Hydref 2004 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr:

## Datganiad y Trysorydd 2004

Wrth i rywun ddod yn wirfoddolwr gyda mudiad yr Urdd, buan iawn y bydd person yn gwerthfawrogi natur cwbl ddeinamig y mudiad. Wrth gwrs, fel hyn y dylai fod. Mae'r syniad o fudiad ieuenctid yn ffosileiddio yn gwbl annerbyniol. Nid oes perygl i hynny ddigwydd gyda'r Urdd. Wrth i'r ddarpariaeth dyfu, mae'r ochr ariannol yn dod yn fwyfwy cymhleth a mentrus. Eleni gwelwyd ffrwyth y blynyddoedd o gynllunio a fu at ehangu Gwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn. Dyma ddau ddatblygiad sy'n cynnig moderneiddio allweddol i'r ddwy ganolfan gan sicrhau ein bod yn gallu cynnig gwasanaeth sy'n deilwng o'r oes yr ydym yn byw ynddi.

Erbyn hyn mae'n ffynonellau incwm yn amrywiol iawn ac yn sylweddol. Daw arian i law wrth dâl aelodaeth, grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cronfeydd elusennol, Awdurdodau Lleol, strwythurau'r Gymuned Ewropeaidd, Nawdd Corfforaethol a ffynonellau eraill. Mae'r ffynonellau amrywiol hyn yn gyfarwydd i fudiadau tebyg i'r Urdd, ond un peth sy'n gwneud yr Urdd yn wahanol yw faint o'n harian sy'n cael ei greu gan fecanwaith yr Urdd ei hunan. Rydym ar fin bod yn rhedeg tri gwersyll sylweddol eu maint – Llangrannog, Glan-llyn a nawr, Caerdydd. Rydym hefyd yn cynnal gŵyl gelfyddydau ieuenctid fwyaf Ewrop – sydd yn creu sefyllfa o risg ariannol sylweddol yn flynyddol. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth ysgolion ac athrawon Cymru, gwirfoddolwyr lu ar lawr gwlad, a staff ymroddgar y mudiad, mae'r elfennau hyn wedi llwyddo i gyfrannu'n sylweddol at waith y mudiad dros y blynyddoedd diwethaf. Aeth rhai blynyddoedd ers i ni wynebu colled mewn Eisteddfod, a dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llangrannog a Glan-llyn wedi cyfrannu at welliannau ar draws y mudiad – heb sôn am welliannau i'r ddwy ganolfan.

Mae cyfrifon 2003/04 yn dangos colled o £176,671 ar weithgareddau cyffredinol. Roedd y golled hon yn fwy na'r un a obeithiwyd amdani. Mae ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth yn rhannol gyfrifol – ee. cododd y llywodraeth y lefel o Yswiriant Gwladol ac fe gododd ein premiwm yswiriant corfforaethol yn sylweddol wrth i ni weld cynnydd cenedlaethol mewn achosion cyfreithiol yn erbyn mudiadau gwirfoddol a statudol. Yn ail, bu costau unigryw yn gysylltiedig â pharatoi Glan-llyn a Llangrannog ar gyfer eu hagor ar eu newydd wedd. Fodd bynnag, ar drywydd mwy calonogol, rhaid llongyfarch y criw a fu wrthi'n ddiwyd yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tawe, Nedd ac Afan. Gan mai hon oedd yr ail Eisteddfod o fewn 35 milltir o fewn blwyddyn, bu pryder gwirioneddol am ein gallu i gynnal yr Eisteddfod hon. Gyda chydweithio lleol a chyfraniad staff cyfan bendigedig, fe drowyd y pryderon am golled i ddathlu cyfraniad parchus tuag at gostau canolog y mudiad.

Beth bynnag fydd ein sefyllfa o fewn deuddeg mis, mae un peth y gallwn fod yn hyderus ohono. Bydd y mudiad yn dal i weithio at ariannu gwaith creadigol ac amrywiol iawn gyda phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Ymlaen!

**Geraint Rees**
Trysorydd
Medi 2004

# Grŵp Urdd Gobaith Cymru Cyfyngedig

## Mantolen 31 Mawrth 2004

| | 2004 £ | 2003 £ |
|---|---|---|
| **ASEDION SEFYDLOG** | | |
| Eiddo Sylweddol | 8,701,850 | 4,820,089 |
| Buddsoddion | 1,090,322 | 916,040 |
| | **9,792,172** | **5,736,129** |
| **ASEDION CYFREDOL** | | |
| Stoc | 49,848 | 23,180 |
| Dyledwyr | 866,327 | 636,402 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 663,649 | 347,088 |
| | **1,579,824** | **1,006,670** |
| **CREDYDWYR:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (2,176,139) | (957,274) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | (596,315) | 49,396 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 9,195,857 | 5,785,525 |
| **CREDYDWYR:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (1,532,769) | (256,487) |
| | **7,663,088** | **5,529,038** |
| **CRONFEYDD** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 4,569,115 | 2,484,008 |
| Cyfrif incwm a thraul | 2,631,617 | 2,819,194 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 309,955 | 94,213 |
| Cronfeydd gwaddol | 152,401 | 131,623 |
| **CRONFEYDD** | **7,663,088** | **5,529,038** |



**Cysylltwch â**

**Mai Parry Roberts:**
Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél

**Ffôn:** 01678 541010
**E bost:** mai@urdd.org
**Gwefan:** www.urdd.org



## Incwm:

| | £ |
|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 1,460,400 |
| 2) Glan-llyn | 830,428 |
| 3) Incwm o fuddsoddion | 33,893 |
| 4) Eisteddfod Tawe, Nedd ac Afan 2003 (gan gynnwys grantiau/nawdd) | 1,229,317 |
| 5) Cylchgronau (gan gynnwys grantiau) | 117,160 |
| 6) Aelodaeth | 248,169 |
| 7) Rhoddion a chymynroddion | 94,057 |
| 8) Amrywiol | 199,587 |
| 9) Nawdd (heb gynnwys nawdd Eisteddfod) | 17,528 |
| 10) Grantiau eraill (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | 725,843 |
| 11) Grantiau tuag at wariant cyfalaf | 2,120,968 |
| **Cyfanswm Incwm am 2003/2004:** | **7,077,350** |




## Gwariant:

| | £ |
|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 1,205,866 |
| 2) Glan-llyn | 796,817 |
| 3) Costau datblygu'r maes a rhanbarth | 1,054,694 |
| 4) Eisteddfod Tawe, Nedd ac Afan 2003 | 1,196,151 |
| 5) Cylchgronau | 128,652 |
| 6) Gweinyddiaeth a rheoli | 191,315 |
| 7) Costau cefnogi ac eraill | 434,099 |
| 8) Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 33,729 |
| 9) Dibrisiant | 96,290 |
| **Cyfanswm Gwariant am 2003/2004:** | **5,137,613** |




| | 2004 £ | 2003 £ |
|---|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 1,939,737 | 1,816,000 |
| Colled ar werthu buddsoddion | (30,705) | (504) |
| | **1,909,032** | **1,815,496** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 225,018 | (258,504) |
| **Cynnydd net mewn cronfeydd** | **2,134,050** | **1,556,992** |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2003 | 5,529,038 | 3,972,046 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2004** | **7,663,088** | **5,529,038** |

## Canlyniad y flwyddyn - Grŵp Urdd Gobaith Cymru

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £4,725,273 o gronfeydd rhydd, £2,345,187 o gronfeydd clwm a £6,890 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £23,057 yn cynnwys diffyg o £145,100 ar gronfeydd rhydd, cynnydd net o £2,085,107 ar gronfeydd cyfyng a diffyg net o £270 ar gronfeydd gwaddol.